

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Dafydd:

Bardd a Brenin

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

Porthi'r Pum Mil	Iesu'r Meddyg
Gideon - yn ymladd dros Dduw	Dafydd: bugail a brenin
Y Nadolig	Elias: negesydd Duw
Teulu Newydd Ruth	Nadolig: Goleuni'r Byd
Moses - Y Dywysoges a'r Baban	Jona: Proffwyd Anfodlon
Pasg – Iesu'r Brenin	Iesu'n croesawu pawb
Samuel – Duw yn siarad â Samuel	Y Pasg: y daith fawr
Pentecost – Newyddion Da lawn	Jeremeia: proffwyd mewn twll
Daniel – yn ffau'r Llewod	Paul: yn cyfarfod Iesu
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas	Moses: Y Deg Gorchymyn
Dechrau'r byd: Hanes y Creu	Iesu: y Ffrind Gorau
Iesu'n dangos ei allu	Solomon: y brenin doeth
Joseff yn yr Aifft	Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da
Y Nadolig: Rhodd Duw	Nadolig: O'r nef y daeth
Iesu: Ffrind mewn angen	Josua: yr arweinydd newydd
Moses: Gadael yr Aifft	Iesu'r athro da
Y Pasg: trwy lygaid Pedr	Y Pasg: "Gorffennwyd"
Abraham: ffrind Duw	Esther: y frenhines ddewr
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys	Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod
Y Beibl: Stori Fawr Duw	Dafydd: bardd a brenin (Salmau)

Dafydd: Bardd a Brenin © Cyhoeddiadau'r Gair 2011

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 687 9
Argraffwyd yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwers, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Dafydd

Ydych chi'n cofio derbyn Testament bach o'r Gideoniaid pan oeddech yn yr Ysgol Uwchradd? Os na chawsoch gopi yn yr ysgol mae'n debyg eich bod wedi gweld copi wrth ymyl gwllâu ysbyty neu westy. Reit ar ddechrau'r Testament cewch hyd i adran a'r teitl 'Ble i gael cymorth'. Wedyn, cewch restr o adnodau sy'n berthnasol ar gyfer pob math o achlysur - adnodau sy'n sôn am ofn, dicter, pryder, difaterwch, profedigaeth, angen maddeuant, meddwl am briodi, dewis gyrfa ayyb. Dwi ddim yn gwybod os ydych erioed wedi sylwi faint o'r adnodau rheiny sy'n dod o lyfr y Salmu - rhywbeth i wneud ar 'bnawn gwlyb 'falle!




Yn y Salmu, mae Dafydd, a oedd gyfrifol am ysgrifennu llawer o'r Salmu, yn rhannu gyda ni ei meddyliau dwysaf a'i gweddïau mwyaf gonest wrth iddo ganu a gweddïo i Dduw. Wrth inni eu ddarllen mae'n rhaid cydnabod dyma dyn cyffredin, dyn mor debyg i ni, gyda'r un profiadau a'r un teimladau a ni. Cafodd gyfnodau o iselder a phoen meddwl dwys yn sgil profedigaeth a phechod; profodd lawenydd ac hapusrwydd pur wrth fwynhau cwmni a bendithion Duw - ac o ddydd i ddydd cydnabu gynhaliaeth a phenarglwyddiaeth Duw. Does dim rhyfedd felly fod Cristnogion o oes i oes wedi cael budd mawr o droi at lyfr y Salmu, mewn adfyd a gwynfyd, oherwydd mor aml cant ddatganiadau perffaith o'u teimladau a'u profiadau.

Yn y gyfres hon rydym yn dilyn hanes Dafydd wrth iddo ddod yn Frenin Israel, a hynny tua 15 mlynedd ar ôl iddo gael ei eneinio am y tro cyntaf gan y proffwyd Samuel (1 Samuel 16). Yn y cyfamser, treuliodd llawer o'i amser yn dianc rhag y Brenin Saul a geisiodd ei ladd ar sawl achlysur. Ond, pan fu farw Saul mewn brwydr gyda'r Philistiaid, cafodd Dafydd ei eneinio unwaith eto, yn Frenin ar dylwythau dŷ Jwda i ddechrau ac wedyn ar dylwythau dŷ Israel hefyd (2 Samuel 2 a 5). Mae'n cymryd Jerwsalem yn brif ddinas, yn trechu'r Philistiaid ac yn sicrhau'r Arch y Cyfamod, cyn setlo yn ei balas!

Mae Dafydd yn cael ei adnabod fel y Brenin mwyaf pwysig a llwyddiannus ar Israel erioed, ac mae adnod y gyfres yn rhoi'r rheswm am hynny: 1 Cronicl 11:9 'Cynyddodd Dafydd fwyfwy oherwydd bod Arglwydd y Lluoedd gydag ef.' Roedd Dafydd wedi dysgu cerdded gyda Duw pan oedd yn fachgen ifanc yn bugeilio defaid ei dad, a parhaodd i geisio adnabod yr Arglwydd bob dydd o'i fywyd. Doedd e ddim yn ddibechod wrth gwrs, ond roedd ei ddymuniaid bob amser i fyw mor agos at Dduw a oedd yn bosibl.

Y gwerslyfr hwn ydy'r olaf yn ein cyfres 'Golau ar y Gair' ac mae'n briodol felly inni offen ein cyfres gyda dathliad. Beth am ddefnyddio'r Gwasanaeth Teuluol mewn modd arbennig a threfnu dathliad i'r Ysgol Sul cyfan - beth am farbeciw neu bicnic neu barti? Gweddi a dymuniad y pwyllgor gwerslyfrau yw y byddwch yn parhau i brofi bendith wrth baratoi ac wrth arwain yn yr Ysgol Sul, a bydd golau Ysbryd Iesu - 'y Gair' - yn llewyrchu'n gryf yn ein gwlad ac yng nghalonau ein plant a'n pobl ifanc unwaith eto.

Rhestr Adnoddau Llyfrau stori



Y Pasg: Beiblau Lliw

Beibl Newydd y Plant, tud. 105-107

Beibl Lliw y Plant, tud. 168 – 171

Y Beibl i Blant mewn 365 o storiâu,
tud. 256 - 259

Beibl Newydd y Storiwr, tud.78

Cyfres y Beibl Fideo

Ar gael gan Cyngor Ysgolion Sul

Amcanion

- ❖ I gyflwyno Dafydd y bugail, a ddewiswyd gan Dduw i fod yn frenin Israel;
- ❖ I ddarganfod sut y bu i'r Brenin Dafydd ddod ag Arch y Cyfamod i Jerwsalem;
- ❖ I 'ddathlu' gofal a chariad Duw.

AMSER CHWARAE

1. Gêm chwilio

Cuddiwch ddefaid o amgylch yr ystafell - teganau neu rai papur o flaen llaw er mwyn i'r plant gael chwilio amdanynt. Gellir gwahodd y plant i gymryd tro i chwilio am anifail, neu gael pawb i chwilio'r un pryd.

Rhowch y defaid ar y bwrdd o flaen y plant a thrafodwch pa synau y mae defaid yn eu gwneud, pa fwyd maen nhw'n ei fwyta, ble maen nhw'n byw. Ydy'r plant yn gwybod beth yw enw'r person sy'n gofalu am ddefaid?

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes bachgen yn y Beibl a oedd yn fugail, yn gofalu am ddefaid ei dad.

2. Dysgu am anifeiliaid

Casglwch amrywiaeth o lyfrau am y fferm, neu anifeiliaid fferm. Efallai yr hoffech osod clustogau ar y llawr i'r plant gael eistedd arnynt. Gadewch i'r plant edrych ar y lluniau eu hunain am gyfnod, cyn edrych ar un o'r llyfrau yn fwy manwl.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed am fachgen yn y Beibl a oedd yn fugail, yn gofalu am ddefaid ei dad.

3. Beth sydd yn y bocs?

Bydd angen bocs gemwaith gydag amrywiaeth o emwaith ynddo a bocs cardfwrdd gyda chaead - gwnaiff bocs esgidiau y tro'n iawn. Hefyd, bydd angen sgarff ac amrywiaeth o eitemau i'w rhoi yn y bocs, un ar y tro, i'r plant eu teimlo, e.e. Brws gwallt/dannedd, paced o greision, afal, darn o Duplo.

Gwahoddwch un o'r plant i wisgo'r sgarff fel mwgwd ac i roi llaw yn y bocs i geisio dyfalu beth sydd yno. Byddwch yn barod i gynnig cliwiau i'r plant os ydynt yn cael trafferth i adnabod yr eitem. Os ydynt yn dyfalu'n gywir, gadewch iddynt dynnu'r eitem allan o'r bocs a'i osod ar y bwrdd.

Ar ôl i bawb cael tro i ddyfalu trafodwch wahanol focsys sydd gennym adref i gadw pethau'n ddiogel cyn dangos y bocs gemwaith. Esboniwch wrth y plant eich bod yn cadw eich gemwaith yn y bocs arbennig hwn er mwyn eu cadw rhag mynd ar goll neu gael eu difetha.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes am focs arbennig a oedd yn perthyn i bobl Dduw.

4. Amser dathlu

Paratowch amrywiaeth o fwydydd 'parti' ac esboniwch wrth y plant eich bod am gynnal parti i ddathlu bod Duw'n ein caru.

Gofynnwch i'r plant eich helpu i osod y bwrdd a rhoi'r bwydydd ar blatiau, i hongian balwnau a chadwyni lliwgar.

Wrth baratoi, trafodwch gyda'r plant y gwahanol resymau am gynnal parti. Chwaraewch gemau parti, gan ofalu chwarae gêm ddawnsio i orffen.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes am bobl Dduw yn dathlu achlysur arbennig, gyda hyd yn oed y Brenin Dafydd yn dawnsio.



Oed Meithrin – 5

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

AMSER STORI

1. Hanes Dafydd (1 a 2 Samuel)

Bydd angen y lluniau o Atodiad 1, wedi'u chwyddo a'u lliwio os yn bosibl.

Defnyddiwch y lluniau i adrodd hanes Dafydd cyn iddo ddod yn frenin Israel.

Cewch hyd i'r hanesion fel a ganlyn:

Dafydd y bugail: 1 Samuel 16:11; Salm 23;

Dafydd yn trechu Goliath: 1 Samuel 17;

Dafydd yn diddanu'r Brenin Saul: 1 Samuel:16:14-23;

Dafydd yn cael ei eneinio yn Frenin dros Israel: 2 Samuel 2:1-4.

Efallai yr hoffech ddefnyddio Beibl Plant hefyd: Beibl Bach i Blant
Beibl Newydd y Plant, tudalen 62-65.

Roedd Dafydd wedi caru Duw ers iddo fod yn fachgen ifanc iawn. Roedd yn siarad gyda Duw ac yn ymddiried yn Nuw i'w gadw'n ddiogel. Wrth iddo dyfu'n ddyn, parhaodd i garu Duw a cheisiodd fyw i blesio Duw. Roedd Duw wrth ei fodd gyda Dafydd, a dewisodd Duw Dafydd i fod yn Frenin dros bobl Israel.

Mae Duw am i bawb ei garu fel ag y gwnaeth Dafydd - plant, pobl ifanc a phobl mewn oed. Ac mae Duw'n addo edrych ar ôl ei bobl bob amser, fel y gofallodd am Dafydd trwy gydol ei fywyd.

2. Dafydd yn dathlu 2 Samuel 5-6.

Bydd angen Beibl Newydd y Plant a bocs mawr i fod yn 'Arch y Cyfamod,' papur melyn/aur a glud.

Darllenwch yr hanes o Feibl Newydd y Plant, tudalen 70.

Dangoswch y bocs i'r plant a'u gwahodd i'ch helpu i orchuddio'r bocs gyda'r papur melyn/aur. Wrth weithio, esboniwch wrth y plant bod gan bobl Dduw flwch arbennig iawn. Roedd Duw wedi dweud wrthynt am greu'r blwch a'u orchuddio gydag aur. Roedd 3 pheth arbennig yn cael eu cadw yn y blwch, pethau oedd yn eu hatgoffa bod Duw'n eu caru'n fawr. (*Does dim angen egluro cynnwys y blwch, sef ffon Aron, pot o fanna a'r ddwy lechen gyda'r 10 gorchymyn arnynt - y 3 pheth yn eu hatgoffa o hanes Duw'n gofalu amdanynt yng nghyfnod Moses.*) Am flynyddoedd, roedd pawb wedi anghofio am flwch arbennig Duw. Ond, yn awr, cofiodd Dafydd amdano, ac roedd am ddod ag ef i Jerwsalem fel bod pawb yn cofio am y blwch ac am gariad Duw.

Wedyn, adroddwch yr hanes yng ngeiriau eich hun, gan wahodd y plant i actio'r hanes.

Gadewch i'r plant chwythu'r utgyrn maen nhw wedi'u creu ac i ffurfio gorymdaith, gyda dau o'r plant yn cerdded yn y blaen yn cario'r 'Arch.' Wrth gerdded, anogwch bawb i weiddi 'hwrê!' gan chwifio eu dwylo.

Gorffennwch drwy ganu cân sy'n gyfarwydd i'r plant gan eu hannog i foli Duw fel Dafydd a phobl Israel ar y diwrnod arbennig hwnnw.



Oed Meithrin – 5

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

AMSER CREFFT

1. Llyfr hanes Dafydd

Bydd angen copi o'r lluniau o Atodiad 1 i bob plentyn a llyfryn igam-ogam, wedi'u creu o bapur lliwgar.

Cynorthwywch y plant i liwio pob llun yn ofalus. Wrth weithio, trafodwch gynnwys y lluniau, gan eu defnyddio i atgoffa'r plant o hanes Dafydd. Wedyn, gludwch y lluniau ar dudalennau'r llyfr, gan adael y 'clawr' heb lun. Ysgrifennwch deitl ar y clawr gan ddefnyddio pinnau ffelt lliwgar. Anogwch y plant i adrodd hanes Dafydd, eu hunain, wrth edrych ar y lluniau.

2. Arch y cyfamod

Cewch greu un model fel grŵp, neu un model yr un.

Bydd angen bocsys sydd â chaead a phaent melyn/aur, offer paentio ar gyfer yr 'Arch'; darnau o bren (ffon Aron), darnau o bapur siâp cylch (manna), dau ddarn o gerdyn siâp llechi'r 10 gorchymyn - bydd y rhain yn cael eu gosod yn y boc.

Cynorthwywch y plant i baentio'r boc yn ofalus. Cyn rhoi'r caead, gosodwch y 3 eitem yn y boc. Atgoffwch y plant bod y pethau hyn yn atgoffa pobl Dduw am gariad a'r ffordd yr oedd Duw wedi gofalu amdanynt (yng nghyfnod Moses).

3. Trwmped

Bydd angen cerdyn tenau siâp hanner cylch ar gyfer pob plentyn, sticeri lliwgar, tâp selo.

Cynorthwywch y plant i addurno'r cardiau gyda'r sticeri gan eu hannog i greu patrymau amlwg. Wedyn, rholiwch y cerdyn i greu côn, gan ofalu i adael twll bach yn y pen - dyma geg y 'trwmped'. Canwch gân syml gan annog y plant i 'chwarae' eu trwmpedi. Ar ôl ymarfer,

ffurfiwch 'gorymdaith' gyda'r plant yn cerdded o amgylch yr ystafell yn chwythu eu trwmpedi.

4. Poster Salm 150:6

Cywaith papur

Defnyddiwch y lluniau o Atodiad 2 i greu poster ar gefndir lliw.

Torrwch y lluniau o'r offerynnau a'r wynebau allan o flaen llaw, ac ysgrifennwch yr adnod yng nghanol y papur - neu argraffwch yr adnod gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol addas. Hefyd, bydd angen offer lliwio/paentio. Darllenwch y teitl yn araf ac esboniwch ystyr y gair 'molwch'.

Treuliwch amser yn lliwio neu baentio'r lluniau cyn eu gludo ar y poster.

Esboniwch wrth y plant bod Dafydd wedi ysgrifennu llawer o ganeuon i foli Duw - caneuon i ganmol Duw am ei gariad a'i ofal.

Cywaith defnydd.

Bydd angen darn mawr o ddefnydd yn gefndir a darnau llai o ddefnydd lliwgar.

O flaen llaw, defnyddiwch y lluniau fel templedi a thorri allan digon o luniau o'r defnydd.

Hefyd, bydd angen paratoi llythrennau'r teitl. Cynorthwywch y plant i ludo'r lluniau ar y cefndir.

Darllenwch y teitl yn araf ac esboniwch ystyr y gair 'molwch'.

Treuliwch amser yn lliwio neu baentio'r lluniau cyn eu gludo ar y poster.

Esboniwch fod Dafydd wedi ysgrifennu llawer o ganeuon i foli Duw - caneuon i ganmol Duw am ei gariad a'i ofal.



Oed Meithrin – 5

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

AMSER CANU A GWEDDŌ

Rhigwm

1. Roedd yna fugail gyda'i oen,
A Dafydd oedd ei enw,
D-A-F-Y-DD, D-A-F-Y-DD, D-A-F-Y-DD,
A Dafydd oedd ei enw.

2. Roedd yna fachgen laddodd cawr,
A Dafydd oedd ei enw,
D-A-F-Y-DD, D-A-F-Y-DD, D-A-F-Y-DD,
A Dafydd oedd ei enw.

3. Roedd Brenin a choron ar ei ben,
A Dafydd oedd ei enw,
D-A-F-Y-DD, D-A-F-Y-DD, D-A-F-Y-DD,
A Dafydd oedd ei enw.

Cân

'Haleliw, Haleliw, Haleliw, Haleliwia,
Clod, clod i Dduw' (Rhif 8, Tyrd i Ddathlu)

Gweddi

Darllenwch y pennill canlynol, gyda'r plant yn ail-adrodd y cymal, 'Mae ei gariad yn para am byth' ar ôl bob llinell:

Molwn Dduw. Mae'n dda!
Mae ei gariad yn para am byth.
Mae'n gwneud pethau arbennig,
Mae ei gariad yn para am byth.
Ef sydd wedi creu'r byd
a phopeth sydd ynddo,
Mae ei gariad yn para am byth.
Ef a wnaeth yr haul sy'n codi bob dydd,
Mae ei gariad yn para am byth.
Y lleuad a'r sêr i reoli bob nos,
Mae ei gariad yn para am byth.
Molwn Dduw, mae'n dda,
Mae ei gariad yn para am byth.

AMSERLEN

Wythnos 1: Amser Chwarae 1 neu 2; Amser Stori 1; Amser Crefft 1 neu 4; Gweddi;

Wythnos 2: Amser Chwarae 3; Amser Crefft 2 neu 3; Amser Stori 2; Rhigwm;


Wythnos 3: Amser Chwarae 4; Amser Stori 3; Amser Crefft 4; Cân.



Taflen 1



Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Roedd Dafydd yn caru Duw. Roedd Duw yn gofalu am Dafydd.
Wyt ti'n cofio beth sy'n digwydd yn y lluniau?





Roedd gan bobl Dduw bocs aur arbennig.
Tu mewn roedd 4 peth i'w hatgoffa bod Duw yn gofalu amdanynt.
Lliwiwch bopeth yn ofalus. Wedyn, torrwch y ddau lun allan a thapio un ar ben y
llall. Agorwch gaead y bocs i weld beth sydd tu mewn.





Cenwch i'r Arglwydd gân newydd!



Mae Duw wrth ei fodd pan fyddwn yn ei foli!
Sut fedrwn ni foli Duw gyda'r offerynnau?
Pa rai ydych chi wedi eu gweld o'r blaen?



6 - 11 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Amcanion

- ❖ I ystyried hanes Dafydd yn dod yn frenin;
- ❖ I ddarganfod sut y bu i Dafydd ddod ag Arch y Cyfamod i Jerwsalem;
- ❖ I drafod cynnwys rhai o Salmu Dafydd.

Cân i'r gyfres

'Molwch ar yr utgorn' (*Caneuon Ffydd, rhif 57*)

Adnod i'r gyfres

'Cynyddodd Dafydd fwyfwy oherwydd bod Arglwydd y Lluoedd gydag ef.'
1 Cronici 11:9

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Gêm Defaid a'r Blaidd

Dylid cael y plant i sefyll mewn cylch, gydag un person tu allan i'r cylch - ef neu hi ydy'r blaidd. Dylai'r blaidd gerdded o amgylch y cylch gan daro bob plentyn - yn ysgafn(!) ac yn dweud 'dafad' wrth bob un. Caiff y blaidd ddewis dweud 'bugail' wrth unrhyw un o'r plant ac yna dechrau rhedeg o amgylch y cylch tra bod y plentyn sydd wedi ei enwi/henwi'n 'fugail' yn rhedeg ar ei ôl/hôl yn ceisio ei ddal cyn iddo/i gyrraedd y lle gwag yn y cylch.

Os bydd y blaidd yn cyrraedd y lle gwag heb gael ei ddal, dylai aros yno, gyda'r 'bugail' a oedd yn ceisio ei ddal yn troi'n 'flaidd.' Nawr, dylai'r blaidd newydd fynd o amgylch y cylch yn dweud 'dafad' wrth bawb, cyn dewis rhywun i fod yn 'fugail'. Mae'r 'bugail' yn rhedeg ar ôl y blaidd, fel ag o'r blaen, yn ceisio cyrraedd y lle gwag yn y cylch cyn cael ei ddal gan y 'bugail' ayyb; gwneir hyn am gyfnod penodol.

Trafodwch waith bugail gyda'r plant, ac esboniwch y byddwn yn clywed am hanes bugail yn ein stori wir o'r Beibl heddiw.

2. Cymryd Jerwsalem

Bydd angen 9 cerdyn ar bob tîm, gydag un llythyren o'r gair 'JERWSALEM' ar bob cerdyn.

Rhannwch y plant yn dimoedd. Gosodwch y llythrennau mewn swp ar ochr arall yr ystafell, gyferbyn â'r timoedd - cewch eu gosod mewn sypiau ar wahân neu eu cymysgu i gymhlethu'r dasg. Nod y gêm yw bod pob tîm yn ffurfio'r gair 'JERWSALEM'.

Mae aelodau'r tîm yn cymryd tro i redeg/sgipio/cerdded i gasglu un llythyren, nes eu bod wedi casglu'r llythrennau i gyd a'u gosod yn y drefn gywir. Esboniwch mai 'Jerwsalem' yw enw prifddinas gwlad Israel, ac ein bod am glywed yr hanes am sut y daeth yn brifddinas y wlad, flynyddoedd maith yn ôl.

**FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA****3. Cerfluniau cerddorol**

Bydd angen Chwaraewr CDdisgiau neu offeryn taro arnoch.

Chwaraewch y gêm gyfarwydd hon, gyda'r plant yn dawnsio nes bod y gerddoriaeth/offeryn taro yn tewi. Wrth i'r gerddoriaeth dewi dylai'r plant greu siâp cerflun, gyda'r person olaf i fod yn hollol lonydd allan o'r gêm.

Anogwch y plant i ddawnsio'n egniol. Rhowch wobwr fechan i'r enillydd a gwobr arall i'r dawnsiwr/wraig g/orau.

Esboniwch ein bod am glywed hanes y brenin Dafydd yn dawnsio ar achlysur arbennig wrth iddo foli Duw.

4. Arch y Cyfamod

Bydd angen bocws eithaf mawr ar gyfer pob tîm. Hefyd, brigyn, 2 'lechen' (darnau o gerdyn siâp lechen), a darnau o 'fanna' ar gyfer pob bocws (darnau bach crwn o gerdyn gwyn); a'r llun o Arch y Cyfamod o Atodiad 3 neu o'r GDD.

Defnyddiwch gadeiriau i greu cwrs rhwystr. Rhannwch y plant yn dimoedd gyda bocws gwag. Gosodwch yr eitemau eraill ar ochr arall yr ystafell. Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r timoedd casglu'r eitemau, un eitem ar y tro, gan redeg/sgipio/cerdded o amgylch y cwrs rhwystr, a'u osod yn y bocws. Wedyn, mae'n rhaid i'r tîm cyfan gario'r bocws o amgylch y cwrs rhwystr ac yn ôl. Y tîm cyntaf i orffen sy'n ennill y gêm.

Ar ôl gorffen y gêm, treuliwch amser yn esbonio arwyddocâd y bocws a'r eitemau sydd ynddo.

Y bocws = Arch y Cyfamod (*dangoswch lun yr Arch*). Dyma'r bocws arbennig a wnaed gan Moses yn ôl gorchymyn Duw. Gorchuddiwyd yr Arch gan aur pur.

Yn yr Arch roedd:

Dwy lechen = rhoddodd Duw 10 gorchymyn i'w bobl, trwy Moses, a chafodd eu hysgrifennu ar ddwy lechen.

Brigyn = i atgoffa pobl Dduw o ffon Aron. Aron oedd brawd Moses ac ef oedd yr offeiriad cyntaf. Roedd gan yr offeiriad swydd bwysig dros ben. Ef oedd y person a benodwyd gan Dduw i sefyll dros y bobl i gyd. Ef oedd yn siarad gyda Duw dros y bobl ac yn offrymu aberthau i Dduw drostynt.

Manna = i atgoffa'r bobl o'r bwyd y danfonodd Duw i'r Israeliaid tra roedden nhw'n crwydro'r anialwch. Roedden nhw wedi gadael yr Aifft, ac roeddent ar y ffordd i'r cartref newydd yr oedd Duw wedi'i addo iddynt.

Roedd yr Arch hefyd yn symbol bod Duw gyda'i bobl.

Yn ein hanes heddiw, byddwn yn clywed sut y bu i Dafydd fynd i nôl yr Arch a oedd wedi cael ei gipio gan y Philistiaid - gelynion yr Israeliaid.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

1. Hanes Dafydd cyn iddo ddod yn Frenin (1 Samuel 16 – 2 Samuel 2)

Bydd angen y lluniau o Atodiad 1 a'r Llinell Amser.

Dangoswch y pedwar llun, un ar y tro, a'u ddefnyddio i atgoffa'r plant o hanes Dafydd cyn iddo ddod yn Frenin Israel. Efallai bydd y plant yn cofio rhai o'r hanesion, a byddant yn gallu ateb cwestiynau amdanynt.

Dafydd y bugail: 1 Samuel:16:10-11; 1 Samuel 17:14-15, 28; Salm 23.

Dafydd y milwr: 1 Samuel 18: 7- 8, 30.

Dafydd yn gerddor: 1 Samuel 16:18 – 23.

Dafydd yn dod yn frenin: 1 Samuel 5

Gofynnwch i'r plant i ddod o hyd i lun Dafydd ar y Llinell Amser. Beth welant yn y llun? Mae Dafydd nawr yn ddyn ac wedi dod yn frenin. Ond, cyn iddo ddod yn frenin, dysgodd Dafydd lawer am Dduw.

Trowch yn ôl at y lluniau a threuliwch amser yn trafod yr hyn a ddysgodd Dafydd am Dduw drwy'r profiadau/sefyllfaoedd. Ysgrifennwch atebion y plant, neu'ch sylwadau chi, o amgylch y llun perthnasol. Cofiwch sôn am y canlynol:

Yn fugail: (o Salm 23) dysgodd bod Duw'n gofalu amdano, yn rhoi nerth iddo i ymladd gydag anifeiliaid gwyllt, yn cynnal ei fywyd o ddydd i ddydd, yn ei garu, yn ei arwain.

Yn filwr: (o 1 Samuel 17: 37, 47) bod Duw'n amddiffyn, yn ymladd dros ei anrhydedd.

Yn gerddor: Ysgrifennodd llawer o Salmau i ganmol Duw am ei ofal, ei nerth, ei

arweiniad, ei faddeuant, ei drugaredd. Mae'r Salmau'n dangos y perthynas agos rhwng Dafydd a Duw, perthynas yn seiliedig ar ffydd a chariad.

Yn Frenin arfaethedig: Cafodd Dafydd ei ddewis i fod yn frenin tra'n ddyn ifanc ond roedd yn rhaid iddo aros nes iddo ddod yn 30 oed cyn iddo ddod i'r orsedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, profodd gasineb a bygythiadau'r Brenin Saul a chaledwch personol. Trwy'r cwbl, profodd arweiniad ac amddiffyniad Duw.

Gofynnwch i'r plant pa fath o ddyn oedd Dafydd. Ysgrifennwch eu hatebion o amgylch y lluniau.

Eglurwch fod ein profiadau o fywyd o ddydd i ddydd yn datblygu cymeriad. Er enghraifft, rydym yn dysgu sut i fod yn bobl gariadus, amyneddgar, caredig, llawen, hael, ystyriol, ayyb. Roedd profiadau Dafydd wedi ei ddysgu i ymddiried yn Nuw bob amser, ac i fod yn ddewr ac yn amyneddgar.

Yn y wers nesaf cawn weld beth wnaeth Dafydd ar ôl iddo ddod yn Frenin Israel.

2. Dafydd yn dod yn Frenin a Gorchfygu Jerwsalem (2 Samuel 5)

Bydd angen Beibl Lliw y Plant. Hefyd, copiâu o Atodiad 4 wedi'u torri a'u cuddio (bydd angen copi ar gyfer pob pâr/grŵp - gyda phob copi ar bapur lliw gwahanol os yn bosibl).

Dangoswch y map o Israel ar dudalen 14/15 i'r plant cyn troi i dudalen 112 i ddangos llun o Saul iddynt – brenin cyntaf Israel.

Atgoffwch y plant nad oedd Duw am i'w bobl gael brenin, oherwydd roedd Duw am fod yn frenin arnynt. Ar ôl cyfnod, anghofiodd y brenin



6 - 11 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Saul bod yn ufudd i Dduw, felly dewisodd Duw Dag ei ladd mewn brwydr gyda'r Philistiaid, cafodd Dafydd ei gydnabod yn frenin.

Adroddwch hanes Dafydd yn cael ei eneinio yn eich geiriau eich hun (2 Samuel 5: 1-5). Wedyn, rhannwch y plant yn barau/grwpiau bach a'u wahodd i chwilio am y brawddegau sy'n adrodd rhan nesaf yr hanes, 2 Samuel 5:6-10. Eglurwch pa liw papur y dylent chwilio amdano a bod 6 brawddeg i'w cael. Ar ôl dod o hyd i'r brawddegau, dylent geisio rhoi'r brawddegau yn y drefn gywir a darllen yr hanes gyda'i gilydd.

Cymhwyso

Defnyddiwch daflen 6 i adolygu a chymhwyso'r hanes.

3. Dod â'r Arch i Jerwsalem (2 Samuel 6)

Bydd angen Beibl Lliw y Plant, Ilun Arch y Cyfamod o'r GDD (neu o'r Beibl Bach i Blant, tudalen 126).

Atgoffwch y plant am yr hanes blaenorol, sef Dafydd yn dod yn frenin a gorchfygu Jerwsalem a'i gwneud hi'n brifddinas.

Gofynnwch i'r plant a ydynt erioed wedi gadael rhywbeth pwysig ar ôl yn rhywle ac wedi gorfod mynd i'w nôl.

Roedd Dafydd yn cofio bod pobl Dduw wedi colli rhywbeth arbennig iawn, iawn - Arch y Cyfamod. Roedd Duw wedi dweud wrth Moses, amser maith yn ôl, i greu'r bocs hardd hwn. Enw'r bocs oedd 'Arch y Cyfamod', ac roedd yn symbol i atgoffa'r bobl bod Duw gyda nhw ac am iddynt fod yn ufudd iddo. (Dangoswch lun yr Arch i'r plant.)

Cofiodd Dafydd fod gelynyion Israel - y Philistiaid - wedi dwyn yr Arch flynyddoedd yn ôl ac wedi ei gadael yn nhref Kiriath Jearim. Darllenwch yr hanes o Beibl Lliw y Plant, o dudalen 128, paragraff olaf ymlaen i dudalen 129.

Dangosodd Dafydd i bawb, mai dymuniad ei galon oedd plesio Duw ac i gofio amdano. Roedd Dafydd yn deall bod cael cwmni Duw yn bwysicach na dim byd arall mewn bywyd. Trwy ei fywyd roedd Dafydd wedi bod yn ofalus i wrando ar Dduw a bod yn ufudd iddo ac oherwydd hyn profodd gymorth Duw dro ar ôl tro.

Nawr, wedi dod yn frenin, dealodd Dafydd pa mor bwysig oedd iddo barhau i wrando ar Dduw ac i fod yn ufudd iddo er mwyn iddo barhau i brofi cymorth Duw.

Cymhwyso

Dysgwch yr adnod: 1 Cronici 11:9.

Gweler yr Adran 'Gweithgareddau Ychwanegol.'



6 - 11 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Adnod

Dysgwch yr adnod: 1 Cronicl 11:9
'Cynyddodd Dafydd fwyfwy oherwydd bod Arglwydd y Lluoedd gydag ef.'

Bydd angen 11 balŵn. Ysgrifennwch yr adnod ar y balwnau, gydag un gair ar bob balŵn, a'r cyfeiriad Beiblaidd ar y balŵn olaf.

Rhowch y balwnau i'r plant i'w dal, a darllen yr adnod sawl gwaith a'i esbonio. Yn syml, mae'r adnod yn dweud bod Dafydd wedi bod yn frenin llwyddiannus am fod Duw gydag ef. Popiwch y balwnau, un ar y tro, gan ddarllen yr adnod ar ôl pob 'pop'.

Erbyn chwalo pob balŵn, dylai'r plant fedru adrodd yr adnod heb unrhyw gymorth.

Atgoffwch y plant bod Duw am fod gyda ni hefyd. Pan fyddwn yn treulio amser yn darllen y Beibl a gweddïo byddwn yn dod i adnabod Duw yn well ac i'w garu'n fwy.

Cwis

Bydd angen copi o Atodiad 5, dis a chownteri. Hefyd, rhestr o gwestiynau ar hanes Dafydd. Rhannwch y plant yn dimoedd/parau, gyda chownter. Atgoffwch y plant o hanes dynion Dafydd yn ceisio cymryd dinas Jerwsalem o'u gelynion.

Os byddant yn cynnig ateb cywir, cânt daflu'r dis a symud ar hyd y llwybr tuag at Jerwsalem. Y tîm/pâr cyntaf i gyrraedd pen y daith sy'n ennill.

Gêm Defaid a'r Blaidd (2)

Bydd angen hwpiau, neu ddarnau o gerdyn maint A4 a rhyw fath o gerddoriaeth. Gosodwch yr hwpiau neu'r cerdyn ar y llawr.

Dewiswch ddau blentyn i fod yn fleiddiaid, gyda'r plant eraill yn ddefaid. Tra bod y gerddoriaeth yn chwarae mae'r defaid yn chwarae yn y caeau, ond pan fydd y gerddoriaeth yn distewi, mae'n rhaid iddynt geisio lloches yn un o'r corlannau (mewn hŵp neu yn sefyll ar ddarn o gerdyn) cyn i'r blaidd eu dal.

Mae'r defaid sy'n cael eu dal nawr allan o'r gêm. Codwch un o'r hwpiau/darnau o gerdyn a pharhau i chwarae nes mai dim ond un neu ddwy o'r defaid sydd ar ôl - dyma'r enillwyr.



DRAMA

1. Golygfeydd o hanes Dafydd

Cewch rannu'r plant yn 6 grŵp, gyda phob grŵp yn cyflwyno un o'r golygfeydd canlynol, neu ddewis rhai o'r golygfeydd yn ôl nifer y plant sydd yn y dosbarth. Bydd angen digon o Feiblau Plant iddynt ymchwilio'r hanes, ac ychydig o 'bropiau'.

Dafydd y bugail: 1 Samuel:16:10-11; 1 Samuel 17:14-15, 28; Salm 23.

Dafydd y milwr: 1 Samuel 18: 7- 8, 30.

Dafydd yn gerddor: 1 Samuel 16:18 – 23.

Dafydd yn cael ei eneinio (*y tro cyntaf, tra oedd yn ifanc*): 1 Samuel 16: 1,12,13.

Dafydd yn gorchfygu Jerwsalem: 2 Samuel 5:6-12

Dafydd yn dod ac Arch y Cyfamod i Jerwsalem: 2 Samuel 6:12-19

Cofiwch adael digon o amser i bob grŵp 'berfformio' i bawb arall, neu efallai yr hoffech ffilmio pob grŵp.

2. Cyfansoddi Salm

Beth am geisio cyfansoddi cân o fawl gyda'ch gilydd, mewn grwpiau bach, mewn parau neu fel unigolion?

Ysgrifennodd Dafydd lawer o ganeuon o fawl i Dduw. Cafodd rhai eu sbarduno wrth i Dafydd gofio sut y bu Duw ymdrin ag ef yn bersonol, eraill wrth iddo gofio digwyddiadau mawr y gorffennol ac eraill wrth iddo weld trugareddau a mawredd Duw o'i amgylch ym myd natur.

Naill ai,

Casglwch amrywiaeth o luniau i sbarduno'r plant, e.e. ffotograffau, hen galendrau, cylchgronau. Treuliwch amser yn trafod testunau posibl i'ch salm.

Er enghraifft:

- ❖ Canmol Duw am ryfeddodau byd natur - y tywydd, planhigion, tirlun, anifeiliaid;
- ❖ Cofio digwyddiadau'r gorffennol, a diolch amdanynt;
- ❖ Diolch am fendithion beunyddiol;
- ❖ Canmol Duw am yr hyn yr ydym wedi dysgu o'r Beibl, yn enwedig am Iesu Grist.

Neu,

Dewiswch adnod o'r Salmau a chyfansoddi cân yn ei defnyddio. Efallai yr hoffech edrych ar rai caneuon sydd wedi eu hysgrifennu'n barod i gael syniadau.

Cewch hyd i rai yn 'Tyrd i Ddathlu' (rhifau 2, 5, 8), ac yn 'Y Cyntaf a'r Olaf' (rhifau 2, 3, 9, 10). Rhai adnodau posibl:

Salm 8:1; Salm 9:1,2; Salm 19:1; Salm 24:1; Salm 36:5,6; Salm 47:5,6; Salm 107:1

Efallai yr hoffech ysgrifennu penillion ar dôn adnabyddus, neu os ydych yn gerddorol, beth am helpu'r plant i gyfansoddi tòn hefyd?

3. Darlleniad gyda symudiadau

Darllenwch Salm 148 i'r plant. Cyn dechrau, gofynnwch iddynt ganolbwyntio oherwydd byddwch yn ceisio creu symudiadau i'r gân nes ymlaen.

Darllenwch y Salm eto, mewn tair rhan:

- ❖ adnodau 1- 6 canmol Duw am yr awyr a'r nefoedd,
- ❖ adnodau 7-12 canmol Duw am greaduriaid a phobl
- ❖ adnodau 13, 14 galwad i bobl Dduw i'w ganmol

Treuliwch amser yn meddwl am symudiadau addas ar gyfer pob adran.

Gorffennwch drwy ddarllen y Salm gyfan, gyda'r plant yn 'symud'. Efallai yr hoffech chwarae cerddoriaeth addas yn y cefndir.



6 - 11 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

GWEDDIAU

Danfon e-bost at Dduw.

Torrwch siâp llythyren 'E' allan i bob plentyn, sy'n ddigon mawr iddynt ysgrifennu gweddi arni. Hefyd, bydd angen darn o gortyn a phegiau dal dillad.

Darllenwch Salm 17, adnod 6 gyda'r plant. Esboniwch fod llyfr y Salmau yn cynnwys llawer o weddïau a gafodd eu hysgrifennu gan Dafydd. Pam, yn ôl yr adnod, fod Dafydd yn siarad gyda Duw? *Am ei fod yn credu bod Duw yn gwrando arno.*

Mae llawer o bobl yn cyfathrebu heddiw drwy ddefnyddio e-byst, felly dyma'r rheswm am ddefnyddio'r llythyren 'E' ar gyfer ein gweddïau.

Anogwch y plant i lunio gweddi a'i hysgrifennu, yna hongian y gweddïau ar y llinyn gyda'r pegiau. Efallai yr hoffech gadw'r llinyn am gyfnod o wythnosau, gan edrych arno o dro i dro i weld sut mae Duw'n ateb gweddïau'r plant.

Poster Gweddïau Nos a Dydd

Bydd angen Beiblau, darn mawr o bapur gwyn a darn o bapur du sy'n ddigon mawr i orchuddio ei hanner. Hefyd, siapiau lleuad a sêr, siapiau haul a chymylau a geiriau Salm 42 adnod 8 yn deitl i'r poster, glud a phinnau ysgrifennu.

Trowch at Salm 42 a darllenwch adnod 8 gyda'ch gilydd. Esboniwch fod Dafydd yn canmol Duw am ei warchod yn ystod y dydd ac yn ystod y nos.

Rhannwch y siapiau a gwahoddwch y plant i ysgrifennu gweddïau i ddiolch i Dduw am ei ofal drostynt, cyn eu gludo ar y cefndir - y lleuad a'r sêr ar y cefndir du a'r haul a'r cymylau ar y cefndir gwyn.

AMSERLEN

Wythnos 1: Cyflwyno'r thema 1; Cyflwyno'r Hanes 1; Crefft; Drama;

Wythnos 2: Cyflwyno'r thema 2 neu 3; Cyflwyno'r Hanes 2; Crefft; Drama;

Wythnos 3: Cyflwyno'r Thema 4; Cyflwyno'r Hanes 3; Crefft; Drama.



Taflen 4 Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Dafydd yw un o gymeriadau mwyaf adnabyddus y Beibl.

Beth wyt ti'n ei gofio am ei hanes? Defnyddia dy Feibl i ddod o hyd i wybodaeth amdano, cyn lliwio'r lluniau. Cei hyd i'r hanesion yn llyfrau 1 Samuel a 2 Samuel. Efallai yr hoffet ddefnyddio'r lluniau i greu llyfryn am hanes Dafydd.

Defaid pwy oedd Dafydd yn eu bugeilio? 1 Samuel 17:15



Pa elyn gafodd ei ladd gan Dafydd? 1 Samuel 17:50



Pa offeryn coedd Dafydd ei ganu? 1 Samuel 16:23



Beth wnaeth Samuel i Dafydd yn arwydd fod Duw wedi ei ddewis i fod yn frenin? 1 Samuel 16:13.






Arch y Cyfamod

Dyweddodd Duw wrth Moses i adeiladu bocs arbennig - Arch y Cyfamod.

Roedd yr Arch yn symbol i atgoffa pobl Dduw o'r 'Cyfamod' - neu 'Cytundeb' - a oedd yn bodoli rhyngddynt â Duw.



Bocs pren, wedi'i orchuddio ag aur ydoedd.

Roedd yr Arch hefyd yn atgoffa'r bobl fod Duw gyda nhw.



Ar gaead y bocs safai dau geriwb aur a thu mewn iddo, cedwir ffon Aron (brawd Moses), potyn o fanna, a dwy lechen y 10 Gorchymyn.

Cedwir Arch y Cyfamod y tu ôl i len yn y Tabernacl. Dim ond yr Arch Offeiriad oedd yn cael mynd yn agos ato, a hynny ond unwaith y flwyddyn i offrymu aberthau i Dduw.



Taflen 6

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel




Ble
gafodd
Dafydd
ei
eneinio?

2 Sam:
5:3

Beth
yw'r 3
enw ar
brif-
ddinas
Dafydd?

2 Sam:
5:6,7



*Roedd yr eneinio yn
dangos mai Duw oedd
wedi dewis Dafydd i fod
yn frenin.*

*Wyt ti'n cofio beth
ddigwyddodd yn
Jerwsalem yn amser Iesu?*

Pam fod Dafydd wedi cael llwyddiant fel Brenin Israel?






Cei hyd i'r ateb yn 2 Samuel 5, adnod 10. Ysgrifenna'r adnod yma:



Arch y Cyfamod

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Dafydd ar ôl dod yn frenin oedd mynd i nôl Arch y Cyfamod a'i osod yn Jerwsalem. Symbol i atgoffa'r Israeliaid o bresenoldeb Duw ac am y Cyfamod a wnaethpwyd rhwng Duw a'r bobl oedd yr Arch.

Chwiliwch am yr adnodau canlynol er mwyn dod o hyd i fwy o wybodaeth amdano.






*Cynyddodd Dafydd fwyfwy,
ac yr oedd Arglwydd Dduw
y Lluoedd o'i blaid.
2 Samuel 5:10*



Taflen 8 Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Gweddio gyda Dafydd

Mae llyfr y Salmu'n llawn o weddïau a ysgrifennwyd gan Dafydd. Dyma rhai ohonynt...





11 - 14 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Brenin Dafydd

Wythnos 1:

Dafydd yn dod ag Arch y Cyfamod i Jerwsalem (2 Samuel 6:1-15)

Cyflwyniad

Mae'r gyfres hon o 3 gwrs yn edrych ar fywyd Dafydd ar ôl iddo ddod yn frenin. Un o weithrediadau cyntaf Dafydd wedi iddo ddod yn frenin oedd dod ag Arch y Cyfamod i Jerwsalem. Cafodd yr Arch ei chipio gan y Philistiaid, cymdogion gelyniaethus Israel ond ar ôl cyfnod o drafferthion, aethant ag ef yn ôl i Israel, a'i gadael mewn pentref - Kiriath Jearim. Roedd Dafydd yn deall arwyddocâd yr Arch i fywyd a llwyddiant y genedl ac iddo ef yn bersonol - dyma'r symbol o bresenoldeb Duw gyda'i bobl. Roedd hefyd yn gwybod pa mor bwysig oedd dangos parch priodol at Dduw, a bod cael yr Arch yn y brifddinas newydd yn arwydd bod Duw'n ganolog i'w deyrnasiad ac i fywyd y genedl.

Cyflwyno'r Thema

Naill ai,

Gêm Arch y Cyfamod

Rhannwch y bobl ifanc yn ddau grŵp. Bydd angen digon o le er mwyn chwarae'r gêm hon. Bydd angen gwrthrych i arwyddo Arch y Cyfamod a fydd yn cael ei chludo gan aelod o'r grŵp. Hefyd, nifer o eitemau, e.e. cadeiriau, er mwyn creu cwrs rhwystr. Gosodwch yr Arch ben arall yr ystafell, gyferbyn â'r timoedd.

Rhowch sgarff o amgylch llygaid un aelod o'r grŵp ac yna bydd rhaid i weddill y grŵp roi cyfarwyddiadau er mwyn iddo gyrraedd ochr arall y cwrs rhwystr er mwyn dod ag Arch y Cyfamod adref yn ddiogel. Y grŵp sy'n cwblhau'r cwrs yn yr amser cyflymaf sy'n ennill.

Neu,

Trafodwch y peth gorau a wnaethoch erioed dros rywun arall gyda'r grŵp, e.e. rhoi anrheg i rywun neu gynorthwyo rhywun.

Darllen a Deall yr Hanes

1. Darllenwch 2 Samuel 6:1-15

Bydd angen Beiblau a llun yr Arch o'r GDD. Hefyd, 3 marc cwestiwn maint A4, croes goch maint A4, yr enw 'Obed-Edom' a llun 'tic'.

Ar ôl y darlleniad, dangoswch lun Arch y Cyfamod a rhowch yr eglurhad canlynol:

Beth oedd Arch y Cyfamod?

Gosodwch y marc cwestiwn cyntaf wrth y llun.

Roedd Arch y Cyfamod yn holl bwysig i'r Iddewon. Roedd yn symbol o'r addewidion yr oedd Duw wedi'u rhoi i'r Iddewon – gair y Beibl am yr addewidion yw 'Cyfamod.' Cafodd yr Arch ei greu gan Moses yn ôl gorchymyn Duw. Roedd Arch y Cyfamod yn atgoffa'r Iddewon o ffyddlondeb Duw ac yn eu hatgoffa o bresenoldeb Duw.

Beth oedd tu mewn? Pam fod cynnwys yr arch yn bwysig? (Yn ôl Hebreaid 9:1-5)

Gosodwch yr ail farc cwestiwn wrth y llun.

❖ Manna o'r anialwch.

Mae bwyd yn brin yn yr anialwch ac felly tra'r oedd yr Iddewon yn teithio drwy'r anialwch ar y ffordd i Ganaan, rhoddodd Duw'r manna iddynt i'w fwyta yn ddyddiol. Roedd y manna felly yn symbol o garedigrwydd Duw tuag at ei bobl, gan sicrhau fod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu. Darllenwn am hanes Duw yn rhoi manna i'w bobl yn Exodus 16:10-15.

❖ Ffon Aron.

Nid oedd ffon Aron yn ffon arferol. Roedd y ffon yn symbol bod Duw wedi dewis Aron i fod yn Offeiriad ar bobl Israel. Dangosodd Duw i'r bobl



fod Aron wedi ei ddewis, drwy wneud i'r ffon flaguro dros nos. Darllenwn am y digwyddid hwn yn Numeri 17: 7-8.

❖ **Tabledi'r Cyfamod.**

Roedd y tabledi (dau ddarn o lechi) yn cynnwys y deg gorchymyn. Dyma'r gyfraith yr oedd Duw wedi'i rhoi i'w bobl er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod pa ymddygiad oedd Duw yn ei ddisgwyl ganddynt. Mae'n bosib darllen beth oedd ar y tabledi yn Exodus 20.

Roedd cynnwys yr Arch felly yn atgoffa'r bobl o'r cyfamod rhyngddyn nhw â Duw, a hefyd yn eu hatgoffa o'r caredigrwydd yr oedd Duw wedi dangos iddynt yn y gorffennol.

❖ **Darllenwch Exodus 25:10-21**

Rhododd Duw gynllun manwl ar gyfer cynllunio a chreu'r arch. Gofynnwch i'r grŵp i chwilio am fanylion o'r adnodau.

Beth mae adnod 22 yn dweud? *Bod Duw'n dod i gyfarfod â'i bobl wrth yr Arch.*

❖ **Darllenwch 1 Samuel 5:1-12**

Beth ddigwyddodd i'r Philistiaid ar ôl iddynt gymryd yr Arch? *Adnodau 4 a 6.*

Sut gafodd Dafydd yr Arch yn ôl?

Gosodwch y trydydd marc cwestiwn wrth y llun. Darllenwch 2 Samuel 6:1-7 a gosodwch y groes goch wrth ymyl y llun.

Pam fu ymgais gyntaf Dafydd i symud yr Arch i Jerwsalem yn aflwyddiannus?

❖ Doedd Dafydd a Uzzah ddim wedi cymryd i ystyriaeth yr hyn oedd Duw wedi ei ddweud o'r blaen am sut y dylai'r Arch gael ei thrin. Dim ond yr Offeiriaid oedd i gludo'r Arch, a hynny drwy ddefnyddio'r polion pwrpasol – doedd neb i gyffwrdd â'r Arch, roedd mor sanctaidd! Methodd Dafydd a Ussa barchu Duw.

❖ Gosodwch yr enw 'Obed-edom' wrth yr Arch a darllenwch adnodau 9-11. Arhosodd yr

Arch yn nhw Obed-edom am 3 mis a bendithiodd Duw'r bobl oedd yn byw yno. Gwelodd Dafydd sut oedd Duw'n trin y rhai oedd yn ei barchu ac felly penderfynodd geisio mynd â'r Arch o dŷ Obed-edom i Ddinas Dafydd - Jerwsalem. Ond y tro hwn, gofalodd Dafydd ei fod yn dilyn cyfarwyddiau Duw - darllenwch adnodau 12-15.

❖ Gosodwch lun y 'tic' wrth lun yr Arch. Beth wnaeth Dafydd y tro hwn wrth symud yr Arch? Darllenwch 1 Chronicl 15: 11-15, neu adrodd yr adnodau yn eich geiriau eich hun.

Cymhwyso

Mae'r stori yma'n ein hatgoffa ein bod i barchu Duw yn ein bywydau bob dydd.

Cafodd Obed-edom ei fendithio oherwydd ei fod yn trin yr Arch yn gywir o fewn ei gartref a chofiodd ei fod yn rhywbeth sanctaidd ac yn symbol o bresenoldeb Duw. Roedd Obed-edom yn parchu Duw.

Beth mae'n ei olygu i barchu Duw?

Ysgrifennwch y diffiniad canlynol ar ddarn o bapur: 'gwneud ewyllys Duw, yn ffordd Duw'.

Dyma beth mae'n ei olygu i barchu Duw, ac yn syml, mae parchu Duw yn golygu bod yn ufudd i Dduw a byw i'w blesio. Mae'n gallu bod yn anodd cofio byw i blesio Duw ond mae'n bwysig ein bod yn meddwl am yr hyn yr ydym yn ei ddweud, yr hyn yr ydym yn ei feddwl a'r hyn a wnawn.

Ydych chi'n meddwl eich bod yn parchu Duw yn eich bywyd bob dydd?

❖ Darllenwch Mathew 22: 34-38.

Beth mae Iesu'n ei feddwl pan mae'n dweud wrthyfych am garu Duw â'ch holl galon, enaid a meddwl?

Mae angen i bob rhan o'n bywyd garu a rhoi parch i Dduw. Nid yw'n ddigon i'w wneud ar fore Sul neu pan fo rhieni'n gwyllo yn unig. Mae Duw



11 - 14 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

eisiau 100% o'n sylw a 100% o bob rhan o'n bywydau.

Gweddï

❖ Gofynnwch i Dduw eich helpu i'w gofio bob amser.

Gweithgaredd Ychwanegol

Ysgrifennodd Dafydd ganeuon – Salmau – llawer ohonynt, yn diolch i Dduw neu'n gofyn i Dduw am gymorth ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Beth am lunio Salm fel grŵp i ganmol Duw? Edrychwch ar Salm 100 i weld sut oedd Dafydd yn canmol Duw.

Wythnos 2:

Hanes Dafydd a Bathsheba (2 Samuel 12:1-26)

Cyflwyniad

Mae'r stori am Dafydd a Bathsheba yn dangos bod hyd yn oed y gorau ohonom yn gallu syrthio i bechod. Gwelwyd yr wythnos ddiwethaf bod Dafydd yn parchu Duw, ond er hynny, syrthiodd i demtasiwn a phechodd gyda Bathsheba. Darganfyddodd Dafydd nad yw'n bosibl cuddio pechod rhag Duw - mae Duw'n gwybod pan rydym wedi pechu ac mae am i ni gydnabod ein pechod a throi ato mewn edifeirwch. Weithiau, mae Duw'n defnyddio pethau gwahanol i'n cynorthwyo i adnabod ein pechodau ac weithiau mae yna ganlyniadau anochel i'n pechodau.

Cyflwyno'r thema

Naill ai,

Gêm 'Cofio a Chuddio':

Bydd angen hambwrdd a lliain ar gyfer y gêm hon. Dewiswch ryw 10-15 eitem. Mae'n rhaid i'r grŵp edrych ar yr eitemau a cheisio cofio beth sydd yno. Wedyn, cuddiwch yr eitemau (gan eu gorchuddio o dan y lliain) a gofynnwch i'r grŵp i restrï'r eitemau o'u cof.

Neu,

Gêm 'Hangman'

Bydd angen dau dîm ar gyfer y gêm hon. Rhowch air o'r stori heddiw (megis Nathan, Dafydd, Edifarhau, Pechod ayyb.) i un aelod o'r tîm ac yna mae'n rhaid i weddill y tîm ddyfalu pa lythrennau sydd yn y gair. Os ydyn nhw'n dyfalu'r llythrennau neu'r gair yn anghywir, mae rhan o'r grocbren yn cael ei lunio. Mae'n rhaid dyfalu'r gair cyn i'r grocbren cael ei lunio yn gyfan gwbl. (Yn y ddwy gêm, mae'r *geiniog yn disgyn* wrth inni geisio cofio neu ganolbwyntio – ac yn aml mae'r 'geiniog yn disgyn' a byddwn yn sylweddoli ein bod wedi pechu).

Darllen a deall yr hanes -

Rhan 1: (2 Samuel 11:1-15)

❖ Darllenwch 2 Samuel 11: 1-5 . Beth oedd pechodau cyntaf Dafydd? (*Dymuno cael perthynas â gwraig briod, a chysgu gyda Bathseba*).

❖ Darllenwch 2 Samuel 11: 14-15. Beth oedd ei bechod nesaf? (*Cynllwynio i ladd Ureia, gŵr Bathseba*).

❖ Pwyntiau dysgu: Roedd perthynas Dafydd a Duw yn un agos iawn ond er hyn, ildiodd Dafydd i demtasiwn. Mae pob Cristion yn wynebu temtasiwn, ac mae pob Cristion yn medru ildio i demtasiwn.

Mae'r stori ganlynol yn cyfleu'r un neges:

Un diwrnod aeth y pensaer gorau yn y byd ati i gynllunio'r bont gadarnaf yn y byd. Cafodd yr adeiladwr gorau yn y byd ei dalu i adeiladu'r bont gadarnaf yn y byd. Ar ôl i'r bont cael ei hadeiladu doedd dim amheuaeth gan neb ei bod hi'n un dda a chadarn. Roedd y bont i gael ei hagar i'r cyhoedd y diwrnod canlynol. Dros nos dechreuodd hi fwrw eira. Roedd yr eira'n ysgafn ac i ddechrau, roedd yr eira yn disgyn ar y bont fel blawd yn cael ei ogru. Er hyn, dros amser, casglodd yr eira'n drwm a chyn y bore roedd canol y bont wedi disgyn dan bwysau'r eira.



11 - 14 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Roedd yr eira ysgafn wedi malu'r bont gadarnaf yn y byd.

Er bod gan Dafydd berthynas agos iawn â Duw a'i fod wedi sefyll yn gadarn yn erbyn pechod o'r blaen, roedd y temtasiwn yma'n ormod.

Dyma gyngor Iesu ym Mathew 6:13: '*Cadw ni rhag syrthio pan fyddwn ni'n cael ein profi, ac achub ni o afael y drwg.*' Mae'n bwysig i'r Cristion weddio am gymorth i osgoi syrthio i demtasiwn.

Darllen a deall yr hanes - Rhan 2: (2 Samuel 12:1-14)

- ❖ Darllenwch adnodau 1-6. Beth oedd neges stori'r proffwyd Nathan?
- ❖ Darllenwch adnodau 7-11. Beth oedd Duw'n ei feddwl o ymddygiad Dafydd?
- ❖ Darllenwch adnod 13. Beth oedd ymateb Dafydd?

Cymhwysio

Weithiau, rydyn ni fel Cristnogion yn ildio i bechod o bob math. Mae'n hawdd meddwl ein bod ni'n gallu cuddio'r pechod neu'n gallu gweithio pethau allan ein hunain. Mae profiad yn dangos nad yw hyn yn bosibl. Mae angen troi yn ôl at Dduw a gofyn am faddeuant ac am gymorth gan Dduw i wybod beth i'w wneud er mwyn medru gwella'r sefyllfa. Yn aml, mae canlyniadau i'n pechod, er hynny, mae'n well wynebu'r canlyniadau gyda chymorth Duw. Mae Duw'n medru ein cysuro ar adegau anodd, ac yn medru rhoi heddwch i ni fod ein pechodau wedi eu maddau er bod canlyniadau'n parhau.

Trafodwch:

At bwy fyddwch chi'n troi pan fyddwch yn ymwybodol eich bod wedi syrthio i bechod? Fedrwn chi ddeall sefyllfa Dafydd? Fydd hi'n anodd weithiau troi at Dduw pan fyddwn yn ymwybodol o bechod? Pam?

Beth yw'r peth gorau i wneud pryd byddwn wedi pechu?

- ❖ Cydnabod ein pechod i Dduw
- ❖ Gofyn am faddeuant gan Dduw
- ❖ Mae'n bwysig wedyn eich bod yn treulio amser yn gweddio, yn darllen eich Beibl ac yn gwneud yn siŵr bod eich perthynas â Duw yn mynd yn ddyfnach bob dydd.
- ❖ Cymryd cyngor Cristnogion hŷn/aeddfed sy'n ceisio ein helpu i dyfu yn ein perthynas â Iesu.

Gweddi

Ysgrifennodd Dafydd Salm 51 ar ôl y cyfarfod â Nathan. Darllenwch adnodau 1-3. Yn yr adnodau hyn, mae Dafydd yn cyffesu ei bechod ac yn gofyn am faddeuant. Ei ddymuniad yw profi Duw'n glanhau ei galon o'r drwg oedd yno. Anogwch y bobl ifanc i fod yn dawel ac i ystyried os oes yna bechod yn eu calonnau sydd angen eu cyffesu i Dduw a cheisio maddeuant amdano. Wedyn, darllenwch adnod 10. Mae Dafydd yn gofyn am gymorth Duw i gadw ei galon yn bur, calon heb bechod. Anogwch y bobl ifanc i ystyried pa bechodau sy'n demtasiwn iddynt ac i ofyn i Dduw am gymorth i beidio ag ildio i'r temtasiwn i bechu.

Gorffennwch drwy atgoffa'r grŵp bod maddeuant ar gael i ni am fod Iesu wedi marw yn ein lle. Anogwch bob un i ddiolch i Dduw am Iesu, a'i farwolaeth ar y groes.

Wythnos 3: Llyfr y Salmu

Cyflwyniad

Mae'r wers hon yn canolbwyntio ar Lyfr y Salmu. Y nod yw dangos bod Salmu yn gallu bod o gymorth wrth inni geisio cyfathrebu â Duw a'i addoli o ddydd i ddydd. Gobeithiwn weld hefyd



11 - 14 oed

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

ei bod hi'n bosib i ni ddysgu am Iesu wrth astudio llyfr y Salmau.

Cyflwyno'r Thema

Naill ai,

'Cleddyf yn y waen'



Bydd angen Beibl ar bawb. Mae pawb yn esgus bod y Beibl yn 'gleddyf' ac yn ei roi o dan ei gesail – yn y 'waen'. Mae arweinydd y grŵp yn rhoi cyfeiriad o'r Beibl, ac mae pawb yn tynnu'r 'cleddyf' (Beibl) o'r 'waen' a'i ddal yn yr awyr.

Wedyn, mae'r arweinydd yn galw ' Chwiliwch' ac mae pawb yn chwilio am yr adnod, gyda'r cyntaf i ddarganfod yr adnod yn ei darllen yn uchel. Gwnewch hyn rhyw 3- 5 gwaith.

Defnyddiwch gyfeiriadau o wahanol Salmau er mwyn i'r grŵp ddod yn gyfarwydd â lleoliad y llyfr.

Neu,

Tynnwch lun i gyd-fynd â Salm o'ch dewis. Mae Salm 23, Salm 121 neu Salm 100 yn addas.

Darllen a Deall yr Hanes -

Rhan 1: Mae'r Salmau'n Gymorth i'r Cristion
Cyfansoddodd Dafydd nifer o Salmau i gyfathrebu â Duw a'i addoli.

Cawn atebion i amrywiaeth eang o gwestiynau bywyd yn y Salmau. Mae hyn yn gwneud Llyfr y Salmau yn adnodd gwerthfawr iawn i'r Cristion droi ato os bydd angen cymorth, wrth deimlo'n

isel neu'n ofnus, mewn angen am gysur neu am sicrwydd o ofal a chariad Duw.

Rhowch wahanol Salm i bob pâr/unigolyn a gofynnwch iddynt ei darllen ac yna adrodd yn ôl i'r grŵp pa fath o gysur/ateb y gellir ei ganfod yn y Salm:

1: Salm 91 (Mae Salm 91 yn gymorth os yn ofnus.)

2: Salm 4 (Mae Salm 4 yn gymorth os yn ddig neu'n flin.)

3: Salm 51 (Mae Salm 51 yn gymorth os oes rhywun wedi pechu.)

4: Salm 13 (Mae Salm 13 yn gymorth os oes rhywun yn cael amheuan am Dduw.)

5: Salm 27 (Mae Salm 27 yn gymorth os oes rhywun yn ofnus.)

(Ychwanegol: Salm 81 / 30 / 150 ar gyfer dathlu, Salm 37 os yn ceisio atebion, Salm 103 ar gyfer darganfod sut un yw Duw.)

Wedi i bawb gael cyfle i adrodd yn ôl, gofynnwch i'r grŵp pam eu bod yn meddwl bod Duw wedi ysbrydoli Dafydd i gyfansoddi'r holl wahanol Salmau?

Mae'r profiadau a'r emosiynau'n rhan o fywyd bob dydd ac mae'r pethau hyn yn digwydd ym mywydau pawb ar wahanol adegau. Roedd Duw am baratoi cymorth i'w bobl.

Efallai yr hoffech rannu profiad personol am sut y cawsoch gymorth o Salm benodol neu holi'r bobl ifanc a ydyn nhw wedi cael cymorth o Lyfr y Salmau erioed.

Rhan 2: Mae'r Salmau'n dysgu am Iesu.

Er i'r Salmau gael eu hysgrifennu gan y Brenin Dafydd ac eraill cannoedd o flynyddoedd cyn i Iesu gerdded ar y ddaear, mae'r Salmau'n



edrych ymlaen at ddyfodiad Iesu i'r ddaear, at ei ddysgeidiaeth, at ei farwolaeth ac at ei atgyfodiad.

Darllenwch Mathew 27: 32-56 a Salm 22

Edrychwch am y pethau sy'n debyg rhwng y ddwy bennod:

❖ Mae Iesu'n dyfynnu Salm 22: 1 ar y groes (Mathew 27:46)

❖ Mae Salm 22, adnod 6-7 yn cyfeirio at y ffordd y bydd y Meseia'n cael ei wawdio: mae hyn yn cael ei wireddu yn Mathew 27: 39-42.

❖ Mae'r Salmydd yn sôn am y boen fydd y Meseia'n gorfod ei ddiodef yn adnodau 14-15. Mae hyn yn cael ei wireddu yn hanes Iesu'n cael ei arestio, ei chwipio a'i groeshoelio.

❖ Mae'r Salmydd yn rhagweld y milwyr yn rhannu dillad y Meseia (adnod 18) a gwelwn hyn yn digwydd yn Matthew 27:35.

Pam wnaeth Duw ysbrydoli Dafydd i ysgrifennu a rhagweld yr hyn a oedd yn mynd i ddigwydd i Iesu yn y dyfodol?

❖ Er mwyn i bobl gael rhybudd o beth fyddai'n digwydd i'r Iesu

❖ Er mwyn cynorthwyo'r Iddewon i adnabod mai Iesu oedd y Meseia

❖ Er mwyn i ni adnabod mai Iesu yw'r Meseia.

Byddai'r Iddewon a oedd yn gwyllo Iesu'n cael ei groeshoelio yn siŵr o gofio Salm 22 wrth iddynt glywed Iesu'n gweiddi ar Dduw: "Fy Nuw, fy Nuw pam wyt ti wedi troi dy gefn arna i?"

Sut ydych chi'n teimlo wrth feddwl bod Duw wedi dangos i Dafydd yr hyn a fyddai'n digwydd i'w Fab, a hynny flynyddoedd cyn iddo ddigwydd?

Gweddi

Darllenwch Salm 100 gyda'ch gilydd i ddiolch i Dduw. Beth oedd gan Dafydd i ddiolch amdano?

Beth sydd gennym ninnau i ddiolch amdano?





Gweithgaredd Ychwanegol




Beth am osod Salm 100 i gerddoriaeth neu destun rap modern?




Atodiad 1

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel







Bydded





i
bopeth byw



foliannu'r




Arglwydd





Atodiad 3
Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel





Penderfynodd Dafydd y byddai Caer Salem yn brifddinas ardderchog, ond roedd tylwyth y Jebusiaid yn berchen arni.

Felly, aeth Dafydd a'i ddynion i gymryd Caer Salem.

“Ni ddoi i mewn yma; bydd y deillion a chloffion yn dy droi'n ôl,” meddai'r Jebusiaid yn haerllug.

Dringodd Dafydd a'i ddynion i fyny siafft ddŵr i mewn i'r ddinas.


Trechodd y Jebusiaid a daeth Caer Salem yn brifddinas i Dafydd.

Enw arall ar Gaer Salem yw Dinas Dafydd neu Jerwsalem.



Atodiad 5

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel





Gwasanaeth Teuluol

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Gwasanaeth Teuluol Diwrnod i'r Brenin – Hanes Dafydd

Bydd angen 4 balŵn wedi'u llenwi â heliwm - (cewch y rhain o siopau sy'n gwerthu cardiau cyfarch), pinnau ffelt/beiros sy'n addas i ysgrifennu ar y balwnau. Hefyd, bydd angen 'Beibl Newydd y Plant'. Cewch hyd i luniau ar y cyflwyniad PowerPoint sydd ar y GDd.

Croeso, gweddi, emyn dechreuol

Cyflwyno'r Thema – Cwis Pwy yw'r Brenin?

Bydd angen y cwis o'r GDd ar ffurf PowerPoint neu argraffu'r lluniau o'r ddogfen Word.

Ar ôl y cwis, esboniwch fod y plant wedi bod yn treulio amser yn astudio hanes y Brenin Dafydd yn yr Ysgol Sul ac mai dyma yw thema'r gwasanaeth hwn.

Cyflwyniad 1: Hanes Cynharaf Dafydd

Defnyddiwch y sleidiau o'r cyflwyniad PowerPoint i gyflwyno hanes Dafydd yn fachgen yn bugeilio defaid ei dad, yn cael ei eneinio gan Samuel, yn trechu Goliath, ac yn dod yn was i'r Brenin Saul. Efallai yr hoffech wahodd rhai o'r plant i ddarllen yr hanesion perthnasol.

Wrth edrych ar y llun o Dafydd yn chwarae'r delyn i Saul, dangoswch y balŵn cyntaf, ac ysgrifennu'r gair 'MOLI' arno. Eglurwch ystyr y gair 'Moli' i'r plant, ac esboniwch fod Dafydd wedi ysgrifennu llawer o ganeuon yn 'moli' Duw. Ydyn nhw'n cofio enw'r llyfr ble mae caneuon Dafydd wedi eu hysgrifennu? Trowch at Lyfr y Salmau a dangoswch faint ohonynt sydd. Mae llyfr y Salmau yn debyg i lyfr emynau, a chafodd llawer o'r caneuon yn llyfr y Salmau eu hysgrifennu gan Dafydd.

Ysgrifennwch y gair 'Duw' ar y balŵn, gan esbonio y byddai Dafydd yn canmol Duw yn bennaf oll. Gofynnwch i bawb ddychmygu Dafydd yn gorwedd ar ochr y bryn gyda'r defaid, yn edrych i fyny ar y cymylau neu'r sêr, ac yn rhyfeddu pa mor fawr yw Duw, neu'n gweld mellt a tharanau a storm fawr, ac yn meddwl pa mor gryf yw Duw, neu'n synfyfrio wrth gerdded gyda'r defaid ac yn cofio hanesion am Dduw yn achub ei bobl o'r Aiff, ac yn dechrau canu cân i foli Duw am ei gariad a'i ofal. Treuliodd Dafydd lawer o amser yn siarad gyda Duw ac yn meddwl am Dduw, ac wrth iddo wneud hyn byddai caneuon yn codi yn ei galon i ganmol a moli Duw.

Amser Moli

Dewiswch amrywiaeth o ganeuon sy'n canmol Duw. Cofiwch dynnu sylw'r plant a'r gynulleidfa at brif themâu'r caneuon, i ddangos beth yw testun y moli ymhob un.

Cyflwyniad 2: Dafydd yn dod yn Frenin

Darlleniad: 2 Samuel 5:1-5

Dafydd yn dod yn Frenin

Defnyddiwch y sleidiau o'r cyflwyniad PowerPoint i atgoffa'r plant a'r gynulleidfa o'r hyn a ddigwyddodd ar ôl i Dafydd ddod yn Frenin: cymerodd Jerwsalem oddi ar y Jebusiaid i fod yn brifddinas, a daeth ag Arch y Cyfamod i Jerwsalem. Treuliwch amser yn egluro bod Dafydd am ddod â'r Arch i ganol



Gwasanaeth Teuluol

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

bywyd y genedl fel arwydd ei fod am i Dduw fod yng nghanol bywyd y genedl ac i ddangos pwysigrwydd cael Duw yn bresennol. Wedyn, cafodd Dafydd syniad arall.....

Darlleniad: 2 Samuel 7:1-3

Roedd Dafydd am adeiladu 'tŷ' i Dduw. Adeilad crand i gadw'r Arch, ac yn le i'r bobl ddod i addoli Duw. Ond, nid oedd Duw am i Dafydd adeiladu'r fath le, ond yn hytrach, addawodd Duw y byddai Ef yn adeiladu 'tŷ' i Dafydd - 'tŷ' a fyddai'n para am byth!

Doedd Duw ddim yn siarad am 'dŷ' go iawn na fyddai byth yn syrthio i lawr neu'n cael ei ddymchwel. Roedd Duw yn golygu y byddai disgynyddion Dafydd yn frenhinoedd am byth. Ond beth yw ystyr hyn? Does dim brenin wedi bod yng ngwlad Israel ers blynyddoedd lawer!

Dangoswch y llun o Iesu'n marchogaeth i Jerwsalem a chael rhywun i ddarllen yr hanes o Mathew 21:1-9.

Pam fod y bobl yn cyfarch Iesu fel 'Mab Dafydd'? Roedd Iesu'n perthyn i Dafydd, un o'i ddisgynyddion. Dyma'r Brenin yr oedd Duw'n siarad amdano wrth Dafydd: Iesu yw'r Brenin tragwyddol, yr un sy'n mynd i lywodraethu am byth.

Ysgrifennwch y gair 'Iesu' ar y balŵn. Wrth inni gofio am y Brenin Dafydd heddiw, rydym am gofio am y Brenin Iesu hefyd, y Brenin a ddanfonodd Duw i'r byd i ddangos cymaint y mae'n ein caru ac i ddangos sut y gallwn ni ddod i adnabod Iesu yn Frenin arnom ni.

Cyflwyniad 3: Dafydd angen Cyffesu

Dangoswch yr ail falŵn, ac ysgrifennwch y gair 'Cyffesu' arno.

Ydy'r plant yn deall ystyr y gair 'cyffesu'? Rhowch esiampl bersonol neu enghraifft o achlysur pan fu'n rhaid i rywun wneud 'cyffes'.

(Beth am ddangos rhywbeth sydd wedi cael ei dorri'n ddamweiniol, ac egluro sut y bu i'r person a dorrodd yr eitemau orfod 'cyffesu' i'r hyn a wnaethant?)

Efallai yr hoffech wahodd rhai o'r plant i rannu eu profiadau hwy – ond byddwch yn barod!!!! Eglurwch ein bod am glywed hanes trist am Dafydd, achlysur pan fu'n rhaid iddo gyffesu ei bechod i Dduw.

Darllen Hanes Pechod Dafydd gyda Bathseba – mae 'Beibl Newydd y Plant' yn olrhain hanes pechod Dafydd heb fanylder, ac mae'n addas ar gyfer plant o bob oed (*tud. 71*). Cewch egluro fod Dafydd wedi cymryd gwraig rhywun arall i fod yn wraig iddo ef ei hun, heb fanylu'n ymhellach.

Gofynnwch gwestiynau i'r plant i sicrhau eu bod yn deall, ac er mwyn cymhwyso'r hanes. Sut oedd Duw'n gwybod bod Dafydd wedi gwneud rhywbeth o'i le? Ydy Duw yn gwybod pan fyddwn ni'n gwneud pethau drwg?



Gwasanaeth Teuluol

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Beth wnaeth Dafydd ar ôl sylweddoli ei fod wedi pechu? Beth ydyn ni'n ei wneud pan fyddwn ni'n sylweddoli ein bod wedi pechu?

Roedd Dafydd yn 'edifar' – beth yw ystyr bod yn edifar? Ydyn ni'n edifar?

Beth wnaeth Duw wedyn? Ydy Duw yn fodlon maddau i ni pan fyddwn yn dweud 'sori' a gofyn am faddeuant?

Gweddi o gyffes

Mae'r weddi ar y cyflwyniad PowerPoint.

Eglurwch fod Dafydd wedi ysgrifennu Salm i ddweud 'sori' wrth Dduw ac i ddangos ei fod gwir yn edifar, ar ôl i hyn ddigwydd - Salm 51. Mae'r Salm hon yn ein dysgu sut i ddweud 'Sori' wrth Dduw. Mae'r weddi hon yn debyg i'r Salm a ysgrifennodd Dafydd i ddweud 'Sori'. Gwahoddwch rai o'r plant i ddarllen y weddi, gyda'r gynulleidfa yn ymuno gyda'r ymateb ar ddiwedd pob llinell.

Cyflwyniad 4: Salmu o Ddiolch a Deisyfiadau

Dangoswch y ddau falwn olaf, ac ysgrifennwch y gair 'Diolch' ar un balwn, ac ar y llall, y geiriau 'Os gweli di'n dda.'

Rhannwch ddau '*post it note*' bach a phensil i bawb gan ofyn iddynt ysgrifennu rhywbeth maen nhw am ddiolch i Dduw amdano heddiw ar un darn - caiff y plant lleiaf dynnu llun. Estynnwch y balwn 'Diolch' i bawb, iddynt gael gludo'r *post it note* arno.

Atgoffwch y plant a'r gynulleidfa bod llawer o'r Salmu'n cynnwys diolchiadau Dafydd – mae'n diolch i Dduw am bob math o bethau – bwyd, gofal, arweiniad.

Mae llawer o Salmu'n cynnwys deisyfiadau Dafydd. Cyn i Dafydd ddod yn frenin, roedd Saul yn frenin, ac am gyfnod hir bu'n rhaid i Dafydd guddio rhag Saul am ei fod am frifo Dafydd. *Darllenwch yr hanes yn 'Beibl Newydd y Plant'*.

Sut oedd Dafydd yn teimlo, tybed, wrth feddwl bod y brenin am ei frifo? Gweddiodd Dafydd i Dduw, a dywedodd wrtho am ei helynt. Gofynnodd Dafydd i Dduw ei gadw'n ddiogel ac i fod yn help iddo, yn enwedig i'w helpu i beidio â bod ofn. Efallai ein bod ninnau'n teimlo'n unig neu'n ofnus, neu'n drist fel Dafydd weithiau. Gallwn siarad gyda Duw fel y gwnaeth Dafydd, gallwn ofyn am gymorth Duw ymhob sefyllfa.

Gofynnwch i bawb feddwl am bethau sy'n eu poeni, neu sefyllfaoedd anodd lle mae angen cymorth Duw, ac i'w nodi ar yr ail '*post it note*'. Estynnwch y balwn i bawb gael gludo'r papurau arno. Gweddiwch dros y plant a'r gynulleidfa, fel bod pawb yn profi Duw'n eu cynorthwyo yn ystod yr wythnos sydd i ddod.

I gloi

Bydd angen clogyn a choron i wisgo plentyn fel brenin, siâp coron fawr ar gerdyn, a siâp calon.



Gwasanaeth Teuluol

Dafydd: Bardd a Brenin - 1 a 2 Samuel

Gwahoddwch un o'r plant i ddod ymlaen a chael ei gwisgo fel y Brenin Dafydd. Gofynnwch i'r plant a'r gynulleidfa beth maent yn ei wybod am y Brenin Dafydd. Cofiwch holi'r plant mewn ffordd fydd yn edrych ar gymeriad Dafydd, a gofynnwch iddynt ble oedd Dafydd yn teyrnasu.

Dangoswch y goron a gofynnwch i'r plant pa frenin arall y maen nhw wedi clywed amdano heddiw. *Iesu*. Unwaith eto, gofynnwch beth mae'r gynulleidfa'n ei wybod am y Brenin Iesu.

Yn wahanol iawn i'r Brenin Dafydd, mae'r Brenin Iesu dal yn fyw. Bu farw'r Brenin Dafydd wedi iddo fod yn frenin ar Israel am 40 o flynyddoedd. Bu farw'r frenin Iesu, ond daeth yn ôl yn fyw ar y trydydd dydd, ac mae'n fyw heddiw. Dydy Iesu ddim yn frenin sy'n teyrnasu ar wlad arbennig, mae Iesu am fod yn frenin yn ein calonnau ni.

Treuliwch gyfnod i orffen yn edrych ar y balwnau a'u defnyddio yn sbardun i'ch gweddïau. Efallai yr hoffech wahodd rhai o'r plant a'r oedolion i weddio.

Awgrymiadau am ganeuon

Tyrd i Ddathlu: 2, 6, 8, 25, 29;

Y Cyntaf a'r Olaf: 13, 24, 30;

Caneuon Ffydd: 46, 52, 55, 57.